# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

PROSPECTIVE

*Cyflwyniad*

### 56 Trosolwg o'r Rhan hon

(1) Mae'r Rhan hon yn darparu ei bod yn ofynnol i unigolion penodol sy'n rhoi triniaethau arbennig (gweler adran 57) yng Nghymru gael eu trwyddedu i wneud hynny gan awdurdod lleol os nad ydynt wedi eu hesemptio (gweler adran 60).

(2) Mae adran 62 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y meini prawf sydd i gael eu bodloni er mwyn i gais am drwydded gael ei ganiatáu.

(3) Mae adran 63 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amodau y bydd trwydded yn ddarostyngedig iddynt.

(4) Mae adrannau 65 i 68 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am drwydded ac ar gyfer dirymu trwydded; ac mae adran 75 yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol gynnal cofrestr o'r unigolion hynny sydd wedi eu trwyddedu.

(5) Mae adrannau 69 i 74 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymeradwyo mangre y rhoddir triniaeth arbennig ynddi neu gerbyd y rhoddir triniaeth arbennig ynddo.

(6) Mae adran 76 yn galluogi awdurdod lleol i godi ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau triniaeth arbennig a chymeradwyaethau i fangreoedd a cherbydau.

(7) Mae adrannau 77 i 81 yn gwneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau y caiff awdurdod lleol eu cyflwyno yn achos torri gofynion y Rhan hon, ynghylch cydymffurfio â hysbysiadau ac ynghylch apelau.

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Cyflwyniad yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(8) Mae adran 82 yn gwneud darpariaeth ynghylch troseddau o dan y Rhan hon.

(9) Mae adrannau 83 i 90 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch pwerau awdurdodau lleol i orfodi gofynion y Rhan hon, ac mae adrannau 91 a 92 yn gwneud darpariaeth ynghylch eiddo a gedwir o dan y Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 56 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Cyflwyniad yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2